# Symud o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau gofal iechyd oedolion

Fersiwn pobl ifanc o'r canllawiau Pontio a Throsglwyddo ar gyfer Byrddau Iechyd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Helo

Nid digwyddiad yn unig ydy dod yn oedolyn - mae'n broses sy'n llawn penderfyniadau a llawer o newidiadau.

I bobl ifanc sy'n cael cefnogaeth gan wasanaethau gofal iechyd, mae symud o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn rhan o'r broses hon.

i

## Gwasanaethau plant

Nid oedolion bach ydy plant! Mae eu hesgyrn, eu calonnau a'u horganau eraill yn wahanol. Maen nhw angen gweithwyr proffesiynol sydd â'r sgiliau a'r offer cywir i ofalu amdanyn nhw. Mae plant hefyd angen gofal ychwanegol i'w cadw'n ddiogel.

## Gwasanaethau oedolion

Yn meddu ar yr holl wasanaethau, gweithwyr proffesiynol ac offer i gefnogi oedolion.

Mae Llywodraeth Cymru eisiau sicrhau bod Byrddau Iechyd yn cefnogi pobl ifanc wrth iddyn nhw symud i ddefnyddio gwasanaethau oedolion. Rydyn ni'n gwybod y gall fod yn anodd symud i dîm newydd o weithwyr proffesiynol a gwasanaethau.


**Felly, rydyn ni wedi ysgrifennu canllawiau ar gyfer y Byrddau Iechyd yng Nghymru.**

Mae'r llyfryn hwn yn esbonio'r canllawiau a beth mae'n ei olygu i chi. Rydyn ni am sicrhau ei bod yn glir i Fyrddau Iechyd beth rydyn ni'n ei ddisgwyl gan eu gwasanaethau. Felly, rydyn ni eisiau gwybod beth yw eich barn chi.

i

Mae Byrddau Iechyd yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau gofal iechyd gan gynnwys:

- Meddygon Teulu, fferyllfeydd, deintyddion ac optometryddion
- Ysbytai
- gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys canolfannau iechyd a gwasanaethau iechyd meddwl.



# Yr amser gorau i symud


Mae pobl ifanc i gyd yn wahanol, maen nhw i gyd yn tyfu i fyny mewn gwahanol ffyrdd. Felly, gallai'r amser gorau i chi symud i wasanaethau oedolion fod yn wahanol i'r amser gorau i rywun arall.

Nid yw'n ymwneud ag oedran yn unig - mae'n ymwneud â gallu dangos eich bod chi:

- yn deall eich anghenion iechyd
- yn deall beth sydd angen digwydd
- yn gallu rhoi caniatâd.

**Dydyn ni ddim am i chi deimlo eich bod yn cael eich gwthio i mewn i wasanaethau oedolion neu gael eich dal yn ôl oherwydd 'rheol oedran' lem.**






i Mewn rhai sefyllfaoedd, gall plant dan 16 mlwydd oed roi caniatâd. Yr enw ar hyn yw bod yn 'gymwys yn ôl safon Gilick'. Mae'n golygu eu bod wedi cael asesiad i ddangos eu bod yn deall eu materion iechyd.

i Nid oes gan rai oedolion ifanc (18 i 25) y gallu i ddeall y penderfyniad iechyd sy'n cael ei wneud yn llawn. Felly nid ydyn nhw'n gallu rhoi caniatâd. Efallai y bydd angen rhywun arnyn nhw i'w helpu i wneud penderfyniadau.

# Rheoli’r broses o symud i wasanaethau oedolion

Mae’n bwysig bod eich proses o symud i wasanaethau oedolion mor llyfn â phosib.


## Arweinydd Pontio a Throsglwyddo

Rydym am i bob Bwrdd Iechyd gael un person a fydd yn sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw wrth iddyn nhw symud i wasanaethau oedolion.

Nhw fydd yr arweinydd Pontio a Throsglwyddo. Eu gwaith yw sicrhau bod yr holl wasanaethau gofal iechyd yn eu hardal:

- yn gwybod am y canllaw hwn ac yn ei ddilyn
- yn cefnogi pobl ifanc sy’n symud i mewn i wasanaethau oedolion
- yn rhoi gwybodaeth i bobl ifanc a’u cynnwys mewn penderfyniadau
- yn rhoi gofal a chefnogaeth o safon i bobl ifanc heb unrhyw fylchau.

i Mae gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) safonau ansawdd i’r gwasanaethau iechyd eu dilyn. Rydym wedi datblygu’r canllaw hwn o amgylch y safonau hyn.



# Yr egwyddorion

Rydym wedi datblygu'r egwyddorion hyn fel bod pobl ifanc yn cael y gofal a'r gefnogaeth orau sydd ar gael, ble bynnag maen nhw yng Nghymru.

Mae'n rhaid i wasanaethau gofal iechyd wneud y canlynol:

1. **Gwrando ar bobl ifanc a rhoi eu hanghenion a'u dymuniadau yn gyntaf.**
2. **Canolbwyntio ar fynediad cynnar a hawdd at ofal a chymorth, yn enwedig i bobl ifanc mewn argyfwng, sydd ag anabledd neu anfantais.**
3. **Gweithio gyda gwasanaethau eraill i ddiwallu anghenion pobl ifanc.**
4. **Rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar bobl ifanc i wneud penderfyniadau.**
5. **Rhoi adborth a hyder i bobl ifanc trwy ddangos cynllunio, monitro ac arweiniad cryf.**

Rhaid i bob Bwrdd Iechyd sicrhau bod eu gwasanaethau gofal iechyd yn gwybod am yr egwyddorion hyn ac yn eu dilyn.

## Mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi'ch hawliau

Mae gan bob plentyn hawliau sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Mae'r egwyddorion hyn yn cefnogi'ch hawliau i:

- gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi (erthygl 12)
- derbyn gwybodaeth o ansawdd da (erthygl 13)
- cael eich amddiffyn rhag niwed (erthygl 19)
- derbyn cefnogaeth ychwanegol os ydych chi'n anabl (erthygl 23)
- derbyn gofal iechyd o ansawdd da (erthygl 24)
- cael oedolion i weithredu er eich budd gorau (erthygl 3).



# Cynllunio'r broses o symud

Os yn bosibl, dylai cynllunio'r broses o symud i wasanaethau oedolion ddechrau pan fyddwch chi'n 13 neu'n 14 mlwydd oed.

Dylai pawb gymryd rhan:

- chi
- eich teulu
- eich meddyg lleol
- eich tîm gofal iechyd
- gwasanaethau eraill fel gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg.

Dylai Byrddau Iechyd:

- ddiwallu eich anghenion gofal iechyd
- deall yr hyn rydych chi a'ch teulu ei eisiau
- gwneud yn siŵr bod gwasanaethau plant ac oedolion yn gweithio gyda'i gilydd fel nad oes unrhyw fylchau yn eich gofal
- cytuno beth fydd yn digwydd pan fyddwch chi'n symud i wasanaethau oedolion.

Os ydych chi am symud i wasanaethau oedolion yn gynharach ond na allwch wneud hynny, rhaid iddyn nhw ddweud y rhesymau pam wrthych chi.

## Cael gweithiwr penodol

Wrth i chi fynd trwy'r broses o symud i wasanaethau oedolion, dylai fod gennych weithiwr penodol. Byddan nhw'n eich cefnogi a'ch helpu chi:

- i drefnu eich cynlluniau gofal iechyd
- i ddweud eich dweud mewn penderfyniadau
- i symud i wasanaethau oedolion.

Gallai'ch gweithiwr penodol fod:

- yn nyrs
- yn weithiwr iechyd proffesiynol rydych chi'n ei adnabod ac yn ymddiried ynddo
- eich meddyg
- yn eiriolwr iechyd a all sicrhau bod rhywun yn gwrando arnoch chi.



## Os yw eich triniaeth yn dechrau yn 16 neu 17


Efallai eich bod chi'n 16 neu'n 17 mlwydd oed pan fyddwch chi angen cymorth am y tro cyntaf gan wasanaethau gofal iechyd. Efallai y byddwch chi'n mynd i'r ysbyty trwy'r adran damweiniau ac achosion brys neu'n datblygu salwch.

Yn yr oedran hwn gall naill ai'r gwasanaethau plant neu'r gwasanaethau oedolion ofalu amdanoch chi.

Mae'r meddyg neu'r gweithiwr proffesiynol sy'n eich atgyfeirio yn gyfrifol am eich gofal nes bod y cynllun yn ei le. Rhaid iddyn nhw sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth rydych chi ei hangen i wneud penderfyniadau.

Os ydyn nhw'n credu y byddwch chi'n cael gwell cefnogaeth gan y gwasanaethau oedolion, ni ddylech fynd ar restr aros hir. Mae'n rhaid iddyn nhw sicrhau ei fod yn digwydd yn gyflym.

Rhaid i bawb weithio gyda'i gilydd i sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth orau ar gael.



# Y Cynllun Pontio a Throsglwyddo (THP)

Rhaid bod gan bob person ifanc Gynllun Pontio a Throsglwyddo (THP). Bydd ganddo wybodaeth gan gynnwys:

- beth sy'n bwysig i chi
- beth yw eich cyflwr a'ch angen gofal iechyd
- y gofal a'r driniaeth rydych chi'n ei chael
- y llinell amser a'r canlyniadau disgwyliedig
- beth sydd wedi'i gytuno
- pwy sy'n gyfrifol am y gofal
- beth fydd yn digwydd wrth i chi symud i wasanaethau oedolion.

Ni ddylai fod yn rhaid i chi ailadrodd eich holl fanylion a gwybodaeth drosodd a throsodd. Bydd y THP yn helpu i atal hyn. Gallwch ei ddefnyddio fel Pasbort.

## Cynllunio cyn eich pen-blwydd yn 16 mlwydd oed

Mae angen gwirio eich THP cyn eich pen-blwydd yn 16 mlwydd oed. Rhaid i'ch gweithiwr penodol gael cyfarfod adolygu i wirio:

- eich bod wedi cael eich cynnwys a'ch bod chi'n gwybod beth yw'r camau nesaf
- bod eich anghenion yn cael eu diwallu
- bod penderfyniadau am eich gofal yn eich rhoi chi gyntaf.

Unwaith y cytunir ar y THP, rydych chi'n cael ei gadw. Mae copi hefyd yn cael ei gadw ar eich cofnodion meddygol.



# Cwblhau trosglwyddiad i wasanaethau oedolion

Mae eich gweithiwr penodol yn aros gyda chi nes bod eich trosglwyddiad i wasanaethau oedolion wedi'i gwblhau. Efallai y byddan nhw'n mynd gyda chi i gwrdd â'ch tîm meddygol newydd neu ymweld â chanolfannau newydd. Maen nhw'n sicrhau bod gennych chi a'ch teulu yr holl wybodaeth rydych chi ei hangen.

Mae'n bwysig bod gwasanaethau plant yn parhau i fod yn gyfrifol amdanoch chi nes bod y broses o symud wedi cwblhau. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd llythyr yn cael ei anfon atoch chi a'ch meddyg.

# Un peth olaf

Rhaid i Fyrddau Iechyd:

- sicrhau bod gennych chi'r holl wybodaeth rydych chi ei hangen
- gofyn i chi am eich profiad o symud i wasanaethau oedolion
- dweud wrthych chi am wasanaethau eiriolaeth gofal iechyd a chynnig cefnogaeth eiriolaeth i chi
- dweud wrthych sut i wneud cwyn.

# Diolch am ddarllen hwn

Rydym am sicrhau bod y canllaw hwn yn gwella'r gefnogaeth mae pobl ifanc yn ei chael wrth symud i wasanaethau oedolion.

Bob dwy flynedd byddwn yn gwirio bod Byrddau Iechyd yn ei ddilyn a'i fod yn gwneud gwahaniaeth.

Rydym eisiau gwybod beth yw eich barn am y canllaw hwn fel nad ydyn ni'n gadael unrhyw beth pwysig allan. Felly, atebwch y cwestiynau ar y dudalen nesaf os gwelwch yn dda.

**Gallwch ddarllen y canllawiau yma.**



## Ydy'r canllaw hwn ar gyfer Byrddau Iechyd yn glir?

○ Ydy ○ Na ○ Ddim yn siŵr

Sylwadau

## Oes unrhyw beth arall mae angen i ni feddwl amdano?

○ Oes ○ Na ○ Ddim yn siŵr

Sylwadau

**Mae'r Gymraeg yn bwysig i ni. Ydych chi'n meddwl y bydd y fframwaith hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg?**

○ Ydw ○ Na ○ Ddim yn siŵr

**Anfonwch eich atebion i:**

Iechyd Plant@gov.wales

Iechyd Plant, Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, CF10 3NQ

Erbyn: **20 Ebrill 2020**

